



RHONDDA CYNON TAF COUNCIL PWYLLGOR TRWYDDEDU

Minutes of the meeting of the Pwyllgor Trwyddedu meeting held on Dydd Mawrth, 11 Medi 2018 at 5.00 pm at the Council Chamber, The Pavilions, Cambrian Park. Clydach Vale, Tonypany, CF40 2XX.

County Borough Councillors - Pwyllgor Trwyddedu Members in attendance:-

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

Y Cynghorydd D Williams	Y Cynghorydd S Bradwick
Y Cynghorydd S Powderhill	Y Cynghorydd E Webster
Y Cynghorydd T Williams	Y Cynghorydd W Lewis
Y Cynghorydd S Morgans	Y Cynghorydd A Cox
Y Cynghorydd L Jones	Y Cynghorydd P Howe

Officers in attendance:-

Ms L Davies, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd
Mr G Black, Rheolwr Cymunedau Diogel a Thrwyddedu
Mr P Nicholls, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol – Gwasanaethau
Mr M Owen, Rheolwr trwyddedu Cynorthwyol
Mr N Evans, Swyddog Gorfodi Trwyddedu
PC Whittle - Heddlu De Cymru

County Borough Councillors in attendance:-

Y Cynghorydd R Lewis

11 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

12 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A'R DDEDDF TROSEDD AC ANHREFN

PENDERFYNWYD nodi pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

13 COFNODION

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf, 2018 yn rhai cywir.

14 DEDDF GAMBLO 2005 - ADOLYGU DATGANIAD O EGWYDDORION (POLISI LLEOL) 2019-2021

Rhoddodd Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd adroddiad i'r Aelodau yn amlinellu'r Datganiad o Egwyddorion diwygiedig, o dan ddarpariaethau Deddf Gamblo 2005 ar gyfer y cyfnod 2019 - 2021 yn unol â gofynion statudol.

Dywedodd y swyddog ei bod yn ofyniad statudol i adolygu'r Datganiad o Egwyddorion bob tair blynedd ac o ganlyniad, roedd y Datganiad cyfredol wedi cael ei adolygu. Cafodd yr Aelodau wybod fod y Comisiwn Gamblo wedi nodi yn ei Ganllawiau Statudol fformat a chynnwys y Datganiad o Egwyddorion, sef y dull mwyaf effeithiol o asesu'r dogfennau polisi a chymharu ar draws yr Awdurdodau Lleol.

Esboniodd y swyddog fod cyfnod ymgynghori wedi digwydd o 24 Gorffennaf, 2018 i 24 Awst, 2018 ac roedd yr Aelodau'n falch o ddysgu ei fod yn cynnwys gwahanol fathau o gyswllt â phartion â diddordeb gan gynnwys hysbysiad wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor a'i dudalennau cyfryngau cymdeithasol.

Cododd yr Aelodau bryderon ynghylch gamblo ar-lein a holodd un a oedd gan yr awdurdod rym i'w reoleiddio. Esboniodd swyddogion fod gamblo ar-lein yn rhan o bŵer y Comisiwn Gamblo a oedd yn edrych ar ffyrdd o gryfhau'r broses dilysu oedran ar-lein ar gyfer y gwefannau hyn.

Tynnodd yr Aelodau sylw at gamgymeriad yn adran 33.4 o'r Adroddiad Datganiad o Egwyddorion Drafft a sicrhodd y swyddog y byddai hyn yn cael ei ddiwygio.

Dywedodd y Cadeirydd, pe bai'r Aelodau'n cymeradwyo'r adroddiad, y byddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn i'w fabwysiadu yn y dyfodol ar ddyddiad sydd heb ei gadarnhau eto, felly o ganlyniad, byddai angen diwygio argymhelliad 2.2 o'r adroddiad ychydig, i gael gwared ar y cymal '24 Hydref, 2018'.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD Aelodau:**

- Cymeradwyo'r diwygiadau i'r polisi fel yr oedd wedi'i argymhell gan Gyfarwyddwr y Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a;
- Cymeradwyo'r Datganiad o Egwyddorion diwygiedig i'r Cyngor i'w fabwysiadu.

15 YSTYRIED TRWYDDEDAU A CHOFRESTRIADAU A GYHOEDDWDYD O DAN DDARPARIAETH PWERAU DIRPRWYEDIG AR GYFER Y CYFNOD: 25.06.18 - 26.08.16

Cyflwynodd Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd fanylion i'r Aelodau am drwyddedau a chofrestriadau a gafodd eu cyhoeddi yn ystod y cyfnod 25 Mehefin, 2018 tan 26 Awst, 2018 a **PHENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

16 TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD

PENDERFYNWYD bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y

byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

17 YSTYRIED Y CEISIADAU CANLYNOL AR GYFER TRWYDDEDU A/NEU GOFRESTRU:

Rhoddodd Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd fanylion y cais canlynol ar gyfer adolygu Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Yn unol â'r gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr SLP o'r Porth ei groesawu gan yr Aelodau – roedd ei gais ger bron y Pwyllgor am gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth ger ei fron, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor ganiatáu'r cais yn amodol ar y telerau ac amodau safonol arferol; â rhybudd am ei ymddygiad yn y dyfodol.

(**Noder:** Cyn i'r Ymgeisydd adael y cyfarfod, pwysleisiodd y Cadeirydd fod angen rhoi sylw dyledus i'r rhybudd wedi ei roi gan y Pwyllgor oherwydd mae'n bosibl y byddai methu â gwneud hynny yn effeithio ar benderfynu ar geisiadau yn y dyfodol.)

18 CRYNODEB GORFODI (GAN GYNNWYS DATA APELIADAU/ERLYNIADAU) AR GYFER Y CYFNOD: 30.6.18 - 31.8.18

Cyflwynodd Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd adroddiad yn amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apelïadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod 30 Mehefin, 2018 tan 31 Awst, 2018.

Ar ôl i'r Pwyllgor drafod yr adroddiad **PENDERFYNWYD** nodi'r cynnwys.

19 CRYNODEB O'R TRWYDDEDAU A GYHOEDDWDYD O DAN DDARPARIAETH AWDURDOD DIRPRWYEDIG AR GYFER Y CYFNOD: 25.06.18 - 26.08.18

Rhoddodd Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd adroddiad i'r Aelodau'n amlinellu'r Trwyddedau a/neu Gofrestriadau a gafodd eu rhoi o dan ddarpariaeth Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 25 Mehefin, 2018 tan 26 Awst, 2018.

Ar ôl i'r Pwyllgor drafod yr adroddiad **PENDERFYNWYD** nodi'r cynnwys.

This meeting closed at 5.45 pm

**CLLR A FOX
CHAIR.**